

D7. Darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr

Crynodeb o'r Uned

Beth yw cwmpas yr uned?

Mae'r uned hon yn ymwneud â chefnogi cydweithwyr i nodi eu hanghenion dysgu, a helpu i ddarparu cyfleoedd i ddiwallu'r anghenion hyn.

Mae annog cydweithwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn agwedd ar yr uned hon, ynghyd â'ch rôl chi, sef darparu 'amgylchedd', er enghraifft, yn eich tîm neu ym maes eich cyfrifoldeb, lle rhoddir pris ar ddysgu.

At ddibenion yr uned hon, y bobl hynny rydych chi'n gyfrifol amdany'n nhw fel rheolwr atebol yw ystyr 'cydweithwyr'.

Ar gyfer pwy mae'r uned?

Argymhellir yr uned ar gyfer arweinwyr tîm, rheolwyr atebol cyntaf, rheolwyr canol ac uwch reolwyr.

Cysylltiadau ag unedau eraill

Mae yna gysylltiad rhwng yr uned hon ac unedau **D3. Recriwtio, dethol a chadw cydweithwyr**, **D5 Dyrannu gwaith yn eich tîm a'i wirio** a **D6. Dyrannu gwaith ym maes eich cyfrifoldeb a monitro ei gynnydd a'i ansawdd** yng nghyfres gyffredinol y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer rheolaeth ac arweinyddiaeth.

Os mai cwmni bach yw'ch sefydliad, dylech edrych ar uned *K1 Make sure your staff can do their work* y mae Cynllun Datblygu Menter Cwmnïau Bychain (SFEDI) wedi'i datblygu yn benodol ar gyfer cwmnïau bychain a allai fod yn fwy addas i'ch anghenion. Gallwch gael gwybodaeth am yr uned oddi wrth SFEDI ffôn: 0114 241 2155 neu wefan SFEDI (www.sfedi.co.uk).

Sgiliau

Isod rhestrir y prif 'sgiliau' generig y mae angen eu defnyddio wrth ddarparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr. Mae cynnwys manwl yr uned yn nodi'n benodol/yn awgrymu'r sgiliau hyn, ac maent wedi'u rhestru yma fel gwybodaeth ychwanegol.

- Hyfforddi
- Arddangos

- Darparu adborth
- Mentora
- Cymell
- Gosod amcanion
- Blaenoriaethu
- Cynllunio
- Grymuso
- Adolygu
- Arweinyddiaeth
- Gwerthfawrogi a chefnogi pobl eraill
- Rheoli gwybodaeth
- Cyfathrebu

D7. Darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr

Canlyniadau perfformiad effeithiol

Mae'n rhaid i chi allu gwneud y pethau canlynol:

1. Hybu buddiannau dysgu i gydweithwyr, a sicrhau cydnabyddiaeth o'u parodrwydd a'u hymdrechion i ddysgu.
2. Rhoi adborth teg, rheolaidd a defnyddiol i gydweithwyr ar eu perfformiad yn y gwaith, gan drafod sut y gallan nhw wella a chytuno ar ffyrdd o gyflawni hyn.
3. Gweithio gyda chydweithwyr i nodi a blaenoriaethu anghenion dysgu ar sail unrhyw fylchau rhwng gofynion eu rolau gwaith a'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau cyfredol.
4. Helpu cydweithwyr i nodi'r arddull(iau) dysgu, neu'r cyfuniad o arddulliau, sy'n gweithio orau iddyn nhw, a sicrhau bod y rhain yn cael eu hystyried wrth nodi ac ymgymryd â gweithgareddau dysgu.
5. Gweithio gyda chydweithwyr i nodi a sicrhau gwybodaeth am amryw o weithgareddau dysgu posibl er mwyn diwallu anghenion dysgu sydd wedi'u nodi.
6. Trafod cynllun datblygu gyda phob cydweithiwr, a chytuno arno. Bydd y cynllun yn cynnwys y gweithgareddau dysgu i ymgymryd â nhw, yr amcanion dysgu i'w cyflawni, yr adnoddau angenrheidiol a'r amserlenni.
7. Gweithio gyda chydweithwyr i adnabod cyfleoedd i ddysgu nad ydyn nhw wedi'u cynllunio, a manteisio arny'n nhw.
8. Ceisio a defnyddio arbenigedd arbenigol sy'n ymwneud â nodi a darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr.
9. Cefnogi cydweithwyr wrth iddyn nhw ymgymryd â gweithgareddau dysgu, gan sicrhau bod unrhyw adnoddau angenrheidiol ar gael, a gwneud pob ymdrech i chwalu unrhyw rwystrau i ddysgu.
10. Gan drafod â phob cydweithiwr, gwerthuso a lwyddodd y gweithgareddau dysgu maen nhw wedi ymgymryd â nhw i gyflawni'r canlyniadau dymunadwy, a darparu adborth positif ar y profiad dysgu.
11. Gweithio gyda chydweithwyr i ddiweddarau eu cynllun datblygu yng ngoleuni perfformiad, unrhyw weithgareddau dysgu maen nhw wedi ymgymryd â nhw ac unrhyw newidiadau ehangach.
12. Annog cydweithwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain, gan gynnwys ymarfer a myfyrio ar yr hyn y maen nhw wedi'i ddysgu.

Ymddygiad wrth wraidd perfformiad effeithiol

1. Byddwch yn cydnabod y cyfleoedd y mae amrywiaeth ymhlith pobl yn eu cyflwyno.
2. Byddwch yn dod o hyd i ffyrdd ymarferol o oresgyn rhwystrau.
3. Byddwch yn sicrhau bod amser ar gael i gefnogi eraill.
4. Byddwch yn ceisio deall anghenion, teimladau a chymelliannau unigolion ac yn mynd ati i ymddiddori yn eu pryderon.
5. Byddwch yn annog ac yn cefnogi eraill i ddefnyddio'u galluoedd i'r eithaf.
6. Byddwch yn cydnabod cyflawniadau a llwyddiant pobl eraill.
7. Byddwch yn ysbrydoli eraill â chyffro dysgu.
8. Byddwch yn wynebu materion sy'n ymwneud â pherfformiad ac yn eu datrys ar unwaith gyda'r bobl dan sylw.
9. Byddwch yn gwrthod ceisiadau afresymol.
10. Byddwch yn onest, yn deg ac yn gyson wrth wneud penderfyniadau.

D7. Darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall y pethau canlynol:

Gwybodaeth gyffredinol a dealltwriaeth

1. Buddiannau dysgu i unigolion ac i sefydliadau, a sut i hybu'r rhain i gydweithwyr
2. Ffyrdd y gallwch ddatblygu 'amgylchedd' lle rhoddir pris ar ddysgu, a lle cydnabyddir parodrwydd ac ymdrechion i ddysgu
3. Pam ei bod yn bwysig annog cydweithwyr i gymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain
4. Sut i ddarparu adborth teg, rheolaidd a defnyddiol i gydweithwyr ar eu perfformiad yn y gwaith
5. Sut i nodi anghenion dysgu ar sail bylchau sydd wedi'u nodi rhwng gofynion rôl gwaith cydweithwyr a'u gwybodaeth, eu dealltwriaeth a'u sgiliau cyfredol.
6. Sut i flaenoriaethu anghenion dysgu cydweithwyr, gan gynnwys ystyried anghenion a blaenoriaethau'r sefydliad, ac anghenion personol ac anghenion datblygu gyrfa cydweithwyr
7. Yr amrywiaeth o wahanol arddulliau dysgu a sut i gefnogi cydweithwyr i nodi'r arddull(iau) dysgu penodol, neu'r cyfuniad o arddulliau dysgu, sy'n gweddu orau iddyn nhw
8. Gwahanol fathau o weithgareddau dysgu, eu manteision a'u hanfanteision a'r adnoddau gofynnol (er enghraifft, amser, ffioedd, staff llanw)
9. Sut/le i nodi a sicrhau gwybodaeth am wahanol weithgareddau dysgu
10. Pam ei bod yn bwysig i gydweithwyr fod â chynllun datblygu ysgrifenedig a'r hyn y dylai ei gynnwys (er enghraifft, anghenion dysgu sydd wedi'u nodi, gweithgareddau dysgu i ymgymryd â nhw a'r amcanion dysgu i'w cyflawni, amserlenni a'r adnoddau gofynnol)
11. Sut i osod amcanion dysgu sy'n SMART (Sbesiffig, Mesuradwy, Amcan clir, Realistig, Terfyn amser)
12. Ffynonellau arbenigedd arbenigol sy'n ymwneud â nodi a darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr
13. Pa fath o gefnogaeth y gallai fod ei hangen ar gydweithwyr i ymgymryd â gweithgareddau dysgu, yr adnoddau angenrheidiol a'r mathau o rwystrau y gallen nhw eu hwynebu, a sut i'w chwalu
14. Sut i werthuso a yw gweithgaredd dysgu wedi cyflawni'r amcanion dysgu dymunadwy
15. Pwysigrwydd adolygu a diweddarau cynlluniau datblygu yn rheolaidd yng ngoleuni perfformiad, unrhyw weithgareddau dysgu maen nhw wedi ymgymryd â nhw ac unrhyw newidiadau ehangach
16. Sut i ystyried deddfwriaeth cydraddoldeb, unrhyw godau ymarfer perthnasol a materion amrywiaeth cyffredinol wrth ddarparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i ddiwydiant/sector

1. Gofynion diwydiant/sector o ran datblygu neu gynnal gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth a datblygiad proffesiynol
2. Materion sy'n ymwneud â dysgu a mentrau a threfniadau penodol sy'n berthnasol o fewn y diwydiant/sector
3. Diwylliant ac arferion gweithio yn y diwydiant/sector

Gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n benodol i'r cyd-destun

1. Gwybodaeth berthnasol am bwrpas, amcanion a chynlluniau'ch tîm neu faes eich cyfrifoldeb neu'r sefydliad ehangach
2. Rolau gwaith cydweithwyr, gan gynnwys terfynau eu cyfrifoldebau a'u hamcanion gwaith personol
3. Gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cyfredol cydweithwyr
4. Bylchau sydd wedi'u nodi yng ngwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau cydweithwyr
5. Anghenion dysgu cydweithwyr sydd wedi'u nodi
6. Yr arddull(iau) neu'r cyfuniadau o arddulliau dysgu y mae cydweithwyr yn eu ffafrio
7. Cynlluniau datblygu ysgrifenedig cydweithwyr
8. Ffynonellau arbenigedd arbenigol sydd ar gael yn eich/i'ch sefydliad, sy'n ymwneud â nodi a darparu cyfleoedd dysgu i gydweithwyr
9. Gweithgareddau dysgu ac adnoddau sydd ar gael yn eich/i'ch sefydliad
10. Polisiau eich sefydliad sy'n ymwneud â chydraddoldeb ac amrywiaeth
11. Polisiau a gweithdrefnau eich sefydliad sy'n ymwneud â dysgu
12. Systemau arfarnu perfformiad eich sefydliad